Tasg 2

(Craidd, sbardun 3)

Mae'r daflen yn cyfarch llawer o bobl ifanc trwy ddefnyddio 'chi'. Newidiwch y ddau baragraff cyntaf fel eu bod yn cyfarch un person yn unig. Bydd yn rhaid newid llawer o eiriau e.e. *chi > ti, eich > dy, peidiwch > paid, rhai > un.* Bydd angen treiglo weithiau.

Chi, yn eich arddegau, ydy'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael rhywun yn dwyn eich ffôn. Mae hynny yn boen. Nid dim ond y ffôn fyddwch yn ei golli ond y rhifau, y negeseuon, eich lluniau a phopeth arall rydych chi wedi llwytho.

Cario eich ffôn o fan i fan
Gwnewch yn siwr eich bod yn cadw eich ffôn o'r golwg. Cadwch ef yn un o'ch pocedi blaen neu mewn bag. Peidiwch â'i roi yn sownd wrth eich belt neu o gwmpas eich gwddf. Wrth eistedd i lawr mewn caffi neu yn yr ysgol peidiwch â'i roi ar y bwrdd. Mae'n hawdd i rywun ei gipio a dianc.